



Diogelwch ar y Rhyngwrwyd Cymru
Hybu Llythrennedd Digidol i Blant a
Phobl Ifanc Cymru

Pobl Ifanc mewn Byd Digidol 2010 - Paratoi, Cefnogi ac Ysbrydoli

Cydnabyddiaethau

Hoffai WISE KIDS a Phartneriaeth Diogelwch ar y Rhyngwrwyd Cymru (DARC) ddiolch i'r canlynol am fod yn brif noddwyr y gynhadledd:

BT, Rhwydwaith Llythrennedd y Cyfryngau Cymru sy'n cael ei ariannu gan Ofcom, Ymddiriedolaeth Nominet a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hoffai WISE KIDS hefyd ddiolch i'n harddangoswyr a'r rhai sydd wedi cefnogi'r gynhadledd:

Arddangoswyr: GCaD Cymru, ProMo-Cymru, Securus Software, EPICT, Forensic Software ac Oracle Education Foundation

Hefyd:

- Pav Chahal (Kaizen UCD) ac Ian Culverhouse am eu cymorth gyda threfniadaeth
- UCAC (am gefnogi'r cyfleuster Cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn y Gynhadledd)
- Prifysgol Bangor
- Dubble Chocolate (am gyflenwi siocled ar gyfer y cynrychiolwyr!)

BT

Mae BT Cymru yn ymroddedig i'r un pwrpas o drosglwyddo'i weledigaeth ddigidol, gan ddarparu'r technolegau mwyaf diweddar fydd yn fuddiol i fusnes, iechyd, addysg, llywodraeth a chymunedau lleol Cymru.

Mae BT hefyd wedi buddsoddi'n drwm mewn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, gan ail-lansio'i Bolisi Dwyieithog – gafodd ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydliadau eraill ar draws Cymru am ei ymrwymiad i'r iaith ac i gymunedau Cymru – a darparu gwasanaeth newydd ar gyfer archebu band llydan drwy gyfrwng y Gymraeg.

<http://www.bt.com>

Ymddiriedolaeth Nominet

Elusen yw Ymddiriedolaeth Nominet sy'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau arloesol, ac yn ymdrechu i wella ac annog datblygu Rhyngrwyd diogel, addysgol a chynhwysol.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu grantiau i sefydliadau all ddangos gweledigaeth a gweithredu ar brosiectau cysylltiedig â'r Rhyngrwyd fydd yn gwneud gwahaniaeth pendant i ddatblygu Rhyngrwyd diogel, addysgol a chynhwysol yn y DU a gwledydd eraill. Daw'r cyllid cyntaf oddi wrth Nominet, cofrestrfa'r Rhyngrwyd ar gyfer parthau'r DU, un o'r cofrestrfeydd enwau parth mwyaf yn y byd.

Ofcom

Yn y tirlun cyfryngol a chyfathrebiadau cyfnewidio a chyflm sydd ohoni, mae angen y grym arnom oll i reoli ein perthynas â chynnwys a gwasanaethau sydd naill ai'n cael eu darlledu neu eu hanfon ar-lein. Pan fydd modelau traddodiadol rheoli cynnwys yn mynd yn llai effeithiol yn eu gallu i leihau niwed a throsedd, rhaid i ni droi at rieni, gofalwyr ac unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros yr hyn y byddant hwy a phlant yn ei weld a'i glywed ar deledu, radio ac ar-lein.

Mae Ofcom yn diffinio llythrennedd y cyfryngau fel 'y gallu i ddefnyddio deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau'

Bwriad Ofcom wrth weithio i hybu llythrennedd y cyfryngau yw:

- rhoi cyfle i bobl a'u hysgogi i ddatblygu'r cymhwysedd a'r hyder i gyfranogi mewn cymdeithas ddigidol, a
- rhoi'r wybodaeth a'r grym i reoli eu gweithgareddau cyfryngol eu hunain (wrth eu treulio a'u creu)

Mae dull Ofcom o weithredu wedi bod ac yn parhau felly, i ddarparu arweiniad a dylanwadu ar rhanddeiliaid gan gynnwys gwneuthurwyr polisi, addysg, diwydiant a'r trydydd sector i hyrwyddo dealltwriaeth ar gyfer holl aelodau cymdeithas.

http://www.ofcom.org.uk/advice/media_literacy

Gofynnwyd i Ofcom yn ddiweddar i arwain Consortiwm o randdeiliaid i hyrwyddo Cyfranogiad Digidol gan ymgorffori Cynhwysiant Digidol, Sgiliau Bywyd Digidol a Llythrennedd y Cyfryngau Digidol.

<http://www.ofcom.org.uk/digitalparticipation>

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw codi lefelau cyrhaeddiad pobl Cymru drwy ei pholisïau addysg a hyfforddiant. Trwy'r polisïau hyn, bydd yn mynd ati i geisio cyflawni'r lles cymdeithasol ac economaidd sy'n allweddol i ddatblygu economi lewyrchus.

Rydym yn hyrwyddo diwylliant dysgu gydol oes er mwyn helpu i wella cyfleoedd pobl ym mhob cam yn eu bywydau, o'r ysgol i'r coleg neu brifysgol, yn ogystal â thrwy gyfrwng hyfforddiant yn y gweithle.

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu'r arweiniad, y polisïau a'r canllawiau i randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud ag addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r polisïau hyn yw 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'.

<http://www.cymru.gov.uk>

Prifysgol Bangor

Mae gan Brifysgol Bangor University draddodiad hir o ragoriaeth academiaidd. Mae ein safonau'n eithriadol uchel ar draws amrediad eang o bynciau, ac mae buddsoddiad aml-filiwn o bunnoedd mewn swyddi academiaidd newydd a thechnoleg arloesol yn cryfhau ymhellach yr addysgu a'r ymchwil ym Mangor.

Mae gennym dros 1000 o gyfrifiaduron at ddefnydd myfyrwyr a naw ystafell gyfrifiadur sydd ar agor 24 awr y dydd, yn ogystal â darpariaeth diwifr ardderchog i system TG y Brifysgol. Mae gan pob Neuadd Breswyl fynediad rhwydwaith i ystod eang o ddeunydd technolegol o bob ystafell wely-astudio unigol, y cyfan ar gael ar-lein. Yn ddiweddar gosododd Bangor sganwr MRI generadiad newydd, y cyntaf o'i fath i gael ei drosglwyddo a'i osod yn y DU – un enghraifft arall o dechnoleg arloesol mewn Prifysgol arloesol.

EPICT – Rhaglen rhwngwladol i ddatblygu athrawon.

Tystysgrif Ymwybyddiaeth eDdiogelwch EPICT – Wedi ei datblygu mewn partneriaeth ag Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu Ysgolion a Chyngor Sir Durham, mae'r ardystiad hwn yn cynnig cydnabyddiaeth ymarferol o ymdrechion ac ymarfer yr addysgwyr yn y maes arbennig hwn.

Bydd y modiwl yn ystyried ffyrdd o gydbwysu manteision a risgiau – gan arwain yn y pendraw at brofiad addysgol cynhyrchiol a diogel i'r plant a phobl ifanc fydd yn gysylltiedig. Anogir cyfranogwyr i archwilio ffyrdd o ddefnyddio offer eDdiogelwch, systemau a dulliau newydd o weithio i helpu sicrhau gwell amddiffyniad i blant pan fyddant ar-lein ac /neu yn defnyddio technolegau symudol.

Meddalwedd Fforensig: Diogelu Myfyrwyr a Staff yn eu Hamgylchfyd Rhithiol

Mae camdriniaeth seibr yn fater sylweddol i fyfyrwyr a staff heddiw; gyda chynnydd chwithig yn y nifer o achosion – ni chaniateir bwlio corfforol nac ymddygiad amhriodol yn yr ysgol, felly mae'n dilyn na ddylid ei anwybyddu ar-lein. Bydd 'Policy Central Enterprise' yn sicrhau eich bod yn diogelu eich defnyddwyr yn yr ysgol a 'CyberSentinel' yn parhau'r diogelwch yn y Cartref.

Ian Culverhouse

Prif ddylunydd cynnyrch cymwysedig yw Ian â thair blynedd o brofiad ganddo o weithio gydag ymgynghoriaeth dylunio masnachol. Mae ei ddiddordebau yn cynnwys dylunio a phrototeipio cynnyrch rhyngweithiol, ymchwil defnyddiwr a dyluniad rhyngweithiol. Mae Ian ar hyn o bryd yn gweithio ar ei Ddoethuriaeth, gan ymchwilio i dechnegau prototeipio o gywirdeb isel cyflym ar gyfer cynnyrch rhyngweithiol, sydd i ddod i ben yn nes ymlaen eleni. Mae ganddo hefyd gryn ddiddordeb mewn cadw i fyny â thueddiadau dylunio cyfredol, datblygiadau ar y we a ffotograffiaeth.

Gwefan URL: www.ianculverhouse.co.uk

Kaizen UCD

Cwmni strategol ymchwil a dylunio defnyddiwr ganolog yw Kaizen UCD, sy'n helpu eu cleientiaid i greu'r profiad defnyddiwr cywir ar gyfer eu cwsmeriaid. Gyda bron i ddegawd o brofiad mae Kaizen UCD wedi ymdrin â meysydd megis ymchwil, dylunio a strategaeth, y cyfan wedi'i anelu at greu'r profiad defnyddiwr cywir, ac wedi derbyn cydnabyddiaeth o fewn y maes hwn. Mae gan Kaizen UCD brofiad helaeth mewn ethnograffeg, defnyddioldeb, a dyluniad ar draws cynnyrch, y rhyngwyd a'r we. Wedi 'i leoli yn Llundain, bu'r cwmni'n gweithio i gleientiaid rhyngwladol yn America, Canada, Ffrainc, yr India yn ogystal ag o fewn y DU.

Y gair Siapaneaidd am welliant parhaus yw Kaizen ac mae UCD yn sefyll am 'User Centred Design'. Mae'r enw'n dweud y cyfan, a dyna hefyd yw arwyddair Kaizen's: i ddylunio a datblygu cynnyrch cwsmer ganolog a chynnig gwasanaethau sydd yn sythweledol, yn denu diddordeb, yn ysbrydoli ac yn gyffrous, bydded yn gynnyrch, yn wasanaeth neu'n wefan.

GCaD Cymru

Mae GCaD Cymru yn datblygu adnoddau dysgu ac addysgu rhyngweithiol AM DDIM sy'n cefnogi'r cwricwlwm ar gyfer oeddrannau 3-19, gan gynnwys pynciau galwedigaethol. Yn gyfredol mae'n darparu mwy na 3500 o adnoddau sydd wedi'u datblygu i gefnogi anghenion y cwricwlwm yng Nghymru, Y Cwricwlwm Cymreig a'r ddarpariaeth adnoddau ddwyieithog. Mae GCaD Cymru hefyd yn cynnal y wefan eDdiogelwch (<http://esafety.ngfl-cymru.org.uk>) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gellir dod o hyd i GCaD Cymru yn <http://www.ngfl-cymru.org.uk>

ProMo-Cymru

Mae ProMo-Cymru yn gyfrifol am ddatblygu CLIC y Sianel Wybodaeth a Chyngor ar gyfer pobl ifanc 11- 25 oed yng Nghymru. Gwefan genedlaethol a chylchgrawn chwarterol yw CLIC gyda gwefannau sirol lleol yn cael eu datblygu i sicrhau y bydd pobl ifanc yn cael mynediad i wybodaeth benodol i'w hardal. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ar ystod o

bynciau, materion a ble i fynd ar ôl cefnogaeth, mae'r sianel ar-lein yn caniatáu i bobl ifanc a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda hwy i lwytho erthyglau, lluniau, fideos, dyluniadau a rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gweithgareddau. Grwpiau o bobl ifanc sy'n golygu ac arwain datblygiad y prosiect yn lleol a chenedlaethol.

Mae ProMo-Cymru hefyd yn treialu llinell gymorth ffôn a negeseua sydyn i bobl ifanc fedru cael mynediad at wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth, gan weithio gyda chonsortium o ddarparwyr eiriolaeth ledled Cymru. Mae'r sefydliad hefyd yn bartner allweddol yn natblygiad yr adnodd offer Dangos Llwyddiant, mae 'n datblygu athrofa celfyddydau diwylliannol yng Nglyn Ebwy (EVI) ac ynghlwm mewn nifer o brosiectau ymchwil a datblygol TGCh, gwaith gyda'r ifanc a diwylliant.

Sefydliad Addysg Oracle

Sefydliad annibynnol, elusennol yw Sefydliad Addysg Oracle (OEF) sy'n cael ei ariannu gan Gorfforaeth Oracle. Fel rhan o'i waith, mae OEF yn cyflwyno ThinkQuest, rhaglen dechnoleg addysg gymeradwy iawn i ysgolion K-12 ar draws y byd. Llwyfan dysgu ar-lein sy'n cael ei warchod yw ThinkQuest ac mae'n galluogi athrawon i integreiddio prosiectau dysgu i'w cwricwlwm yn y dosbarth a galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'n cynnwys amgylchfyd prosiect lle bydd athrawon a myfyrwyr yn cynryd rhan mewn dysgu ar y cyd: man cystadlu lle bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau technoleg: Llyfrgell ThinkQuest sydd wedi ennill gwobr: adnodd dysgu sydd wedi helpu miliynau; a rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgwyr.

Am fwy o wybodaeth, ymwelwch â <http://www.thinkquest.org>

UCAC

Mae UCAC yn Undeb Cenedlaethol cyfrwng Cymraeg sydd yn darparu gwasanaeth proffesiynol i athrawon a darlithwyr Cymru. Mae gennym lais cryf ar yr holl gyrff sydd yn ymwneud â byd addysg ac rydym yn cynrychioli buddiannau ein haelodau yn y Cynulliad ac yn San Steffan. Ni yw'r unig undeb sydd yn medru canolbwyntio yn gyfan gwbl ar fuddiannau athrawon a darlithwyr Cymru a byd addysg Cymru.

Mae UCAC yn hybu defnydd cyfrifol a diogel o dechnoleg newydd, er budd holl ddisgyblion, athrawon a darlithwyr Cymru.

<http://www.athrawon.com>